

Mwd a Gwreiddiau

Cynllun Dysgu Awyr Agored

Arweinydd y Sesiwn:		Nifer y plant: 15 - 30		Ystod oedran: Cynradd	
Lleoliad: E.e. Tiroedd Ysgol, Parc, Coetir, Traeth		Adnoddau: Mwd Coed Marciwyr o rhyw fath – gwllân / rhaff/ cerrig / conau		Meini Prawf Llwyddiant: Bydd pawb yn creu wyneb mwdlyd Bydd pawb yn cymryd rhan yn stori'r goedwig wyllt	
Pwnc: Mwd a Gwreiddiau		Amcan Dysgu (Sail Resymegol): Datblygu dealltwriaeth o'r goedwig law, gan ganolbwyntio ar y coed, ac ystyried sut mae creaduriaid byw wedi'u cysylltu ac yn effeithio ar ei gilydd. Nod y sesiwn a sut mae'n cysylltu â dysgu am Newid yn yr Hinsawdd: Mae deall sut rydym wedi'n cysylltu yn ein helpu i ofalu ac ymgysylltu â sut i warchod bywyd.		Geiriau pwysig: haenau'r goedwig law, datgoedwigo, cyfathrebu	
Amser: 90 mun					
5 mun	Cylch	Briff ffiniau a diogelwch			
5 mun		Gêm boethi		Haenau coedwig law - Mae'r arweinydd yn galw'r disgrifiadau isod o'r 4 haen allan fesul un, ac mae'r plant yn mynd i'w llefydd.	

			<p>1:- Llawr y Goedwig –ewch yn isel i'r llawr, chwifiwch eich canghennau eiddil (am eu bod ddim yn cael llawer o olau), dangoswch dentaclau eich pryfed i mi neu sut mae'r llyngyr yn symud, neu trowch yn ffyngau llawr y goedwig.</p> <p>2: - Isdyfiant –mae pawb yn ymestyn braich i drio cyrraedd drwy'r dail uwchben i fyny at yr awyr. Trowch a throellwch fel lianas a nadroedd yn cylchu boncyffion tenau'r coed sy'n tyfu'n gyflym.</p> <p>3: - Canopi–lledaenwch eich canghennau (breichiau) a theimlo golau'r haul a'r glaw ar eich dail. Plethwch eich canghennau gyda choed eraill. Dyma'r canopi gorlawn, lle mae'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid yn byw ac yn dod i ddod o hyd i fwyd a chysgod.</p> <p>4: - Ymwthiol- dechreuwch yn isel - ar eich cwrcwd ar y llawr, yna neidiwch i fyny mor uchel ag y gallwch a gweiddi 'ymwthiol'-dyma gewri'r goedwig, coed hynafol, sy'n tyfu'n gyflym, yn sefyll uwchlaw'r canopi hyd at 100m o daldra. Yn lle neidio, gallai pawb ddringo ar rywbeth - boncyff, mainc, coeden ac ati i gyrraedd mor uchel â phosibl neu mewn parau neu grwpiau - codwch un person uwchlaw'r gweddill.</p>
--	--	--	---

10 mun	Cylch	Trafodwch yr Amcan Dysgu a rhannwch wybodaeth	Haenau'r goedwig law –Pan rydych chi'n ' gweithredu ' fel y canopi, gofynnais i chi ymestyn eich canghennau i orgyffwrdd â choed eraill... Oes unrhyw ran arall o'r coed a allai orgyffwrdd? Gwreiddiau – rydyn ni'n mynd i fynd i wraidd pethau heddiw.
10 mun	Parau / Fesul tri	Gweithgaredd i ddatblygu/cyfnert hu wybodaeth, e.e. dod o hyd i eitemau cudd, casglu neu sylwi ar rywbeth yn yr ardal	Defnyddiwch farcwyr o ryw fath - gwlân, conau, cerrig, beth bynnag sy'n gweithio i'ch grŵp chi - dewiswch goeden a gosodwch farciwr i ddangos pa mor bell rydych chi'n meddwl mae ei gwreiddiau'n ymestyn o dan ddaear.
5 mun	Cylch	Rhannwch y darganfyddiadau yn gryno Cyflwynwch weithgaredd creadigol	Ydy unrhyw rai o'r meysydd yn gorgyffwrdd? Ydyn. Gweithgaredd – cydio mewn brigyn – mae plant yn sefyll mewn 2 linell hir yn dal dwylo – gyda diwedd y llinell tua 1-2 metr i ffwrdd o goeden. Mae pawb yn wynebu'r goeden ar wahân i'r plant sydd agosaf atoch, sy'n eich wynebu chi. Rydych chi'n rhoi arwydd ddistaw – gallech chi nodio neu ollwng eich llaw i lawr. Mae'r plant ar y diwedd yn gorfod anfon y neges ymlaen i lawr y lein drwy wasgu llaw y plentyn nesaf. Mae pob plentyn yn gwasgu llaw y nesaf, ac mae'r plant olaf yn y llinell yn estyn allan neu'n neidio allan i gyffwrdd â'r goeden agosaf. Y syniad yw gweld sut y gellir



		<p>anfon y neges ymlaen heb eiriau, a cheisio deall sut y gallai coed drosglwyddo negeseuon drwy eu gwreiddiau. Gallwch ailadrodd y gêm hon ychydig o weithiau i weld os ydynt yn gallu cyfathrebu'n gyflymach, neu os yw un llinell yn gyflymach na'r llall ar ôl gwneud hyn ychydig o weithiau. Mae coed yn cyfathrebu heb eiriau trwy rwydweithiau ffwngaidd o'r enw 'rhwydweithiau mycorhisol'.</p> <p>"Some are calling it the 'wood-wide web,'" meddai Peter Wohlleben, a ysgrifennodd 'The Hidden Life of Trees' "All the trees here, and in every forest that is not too damaged, are connected to each other through underground fungal networks. Trees share water and nutrients through the networks, and also use them to communicate. They send distress signals about drought and disease, for example, or insect attacks, and other trees alter their behaviour when they receive these messages. Alarm and distress appear to be the main topics of tree conversation, but what do trees say when there is no danger and they feel content? This I would love to know."</p> <p>Os oes gennych amser, gallai'r plant weld a allant feddwl am ffyrdd heb eiriau eraill o gyfathrebu, a thrafod beth fydden nhw'n cyfathrebu â'i gilydd?</p>
--	--	--

20 mun	Grwpiau	Gweithgaredd creadigol	
			<p>Ar y pwynt hwn, gallwch ofyn y cwestiwn - beth fyddai coed yn ei ddweud pe bydden nhw'n gallu siarad â ni? Neu gallech ddefnyddio'r gweithgaredd chwarae rôl hwn - a dod yn lais i un o'r coed a dweud ei stori yn y person cyntaf. e.e. ' rydych yn fy ngalw'n Oak neu Derw, ond rwy'n galw fy hun yn Quercus. 'Dwi wedi bod yn sefyll yma ar y llecyn yma ers 200 o flynyddoedd, a' dwi 'di gwyllo llawer o bobl ac anifeiliaid yn mynd a dod. Unwaith, dim ond mesen fechan iawn oeddwn i, fyny yn yr awyr, nes i mi gael fy rhwygo'i ffwrdd yn sydyn gan anghenfil blewog enfawr (Rwy'n gwybod nawr mai gwiwer fach oedd yr anifail... ond ar y pryd.. roedd yn brofiad ofnus). Claddodd fi mewn lle tywyll ac anghofiodd amdanaf, ac arhosais yno am amser hir. Un diwrnod, dechreuodd fy ngwreiddiau dyfu ac ymestyn allan drwy'r pridd yn chwilio am faetholion a gwybodaeth. Cyffyrddodd fy ngwreiddiau â gwreiddiau eraill a darganfod sut i ddal eu gafael ar y ddaear a dweud wrthyf pa ffordd i fynd. Dechreuais deimlo'n ddiogel, felly gwthiais flagur i fyny ac i fyny a thrwy'r pridd ac i mewn i'r golau... a dechreuais dyfu. 'Dwi dros 15 metr o daldra nawr, ond plis peidiwch â fy nhorri i lawr i weld os yw hynny'n wir, nac i gyfri fy nghylchoedd... " Ac ati. Gallwch fynd ymlaen i adrodd stori'r goeden, a chynnwys ffeithiau a manylion sy'n</p>

			<p>berthnasol i'r grŵp ac i'r prosiectau.</p> <p>Eglurwch bod y gwreiddiau'n mynd drwy'r pridd - ac er na allwn glywed y coed yn siarad, efallai y gallen ni wneud wynebâu â cegau iddyn nhw... a'u helpu i adrodd eu straeon.</p> <p>Nawr, mae pawb yn gwneud wyneb mwdlyd - gall hyn fod yn gyflym iawn os oes gennyh fwd yn barod, neu gall fod yn antur i ddod o hyd i'r mwd neu'r dŵr - gallech ddod â syniadau am sychder i mewn, a sut mae hyn yn effeithio ar goed hefyd yn ogystal â phobl. Neu gallwch ddod â'ch dŵr eich hun, defnyddio brigyn i grafu rhywfaint o'r ddaear, a chymysgu eich mwd eich hun. Gellir gwneud wynebau mwdlyd drwy sblatio mwd ar foncyff coeden ac ychwanegu manion bethau ar gyfer yr wyneb.</p>
15 mun	Fel 1 neu 2 grŵp	Adborth o weithgaredd Creadigol - cyflwyniad gan blant + Adolygu a Myfyrio	Edrychwch o amgylch y gwahanol wynebâu mwdlyd, a rhowch gyfle i'r plant adrodd stori i'r hyn y gallai eu coeden fod yn ei ddweud.
10 mun	Fel 1 grŵp	Gêm - i weddu'r hwyliâu / grŵp	Mae'r gêm sownd yn y mwd yn ymddangos yn addas. (Gweler y gweithgaredd plannu coed am eglurhad).
10 mun	Cylch	Adolygwch y dysgu, adlewyrchwch ar	Cwblhewch y frawddeg hon o amgylch y cylch 'Petaswn i'n goeden, buaswn i'n dweud...' gallech roi rhywfaint o esiamplau os

Maint Cymru

Pob Cynradd



		brofiad	ydynt angen e.e. 'peidiwch â fy nhorri lawr dim ond i gyfri' fy nghylchoedd, 'bydd yn ofalus wiwer, mae hynna'n cosi' ac ati.
--	--	----------------	---